Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Materion Ewrop

## Cynhyrchwyd gan Swyddfa'r UE

## Rhifyn 10 - Ionawr 2009



www.cynulliadcymru.org

# Cyflwyniad

Mae’n bleser gennyf eich croesawu i’r degfed rhifyn o Faterion Ewrop, ein cylchlythyr misol sy’n rhoi’r newyddion diweddaraf am waith y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â materion Ewropeaidd. Mae cryn dipyn o amser wedi mynd heibio ers y rhifyn diwethaf oherwydd newidiadau staffio yn ein Swyddfa UE, ac rwy’n falch o ddweud bod Gregg Jones wedi’i benodi erbyn hyn i weithio yn y Swyddfa ym Mrwsel.

Penderfyniad bwriadol oedd ail-lansio Materion Ewrop ar ddechrau’r flwyddyn newydd: dyma pryd y byddwn yn ystyried blaenoriaethau’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar gyfer 2009. Bydd cryn dipyn o newidiadau ym Mrwsel yn ystod y flwyddyn hon o gofio y caiff etholiadau Senedd Ewrop eu cynnal ym mis Mehefin ac y caiff Comisiwn newydd ei benodi tua diwedd 2009.

Mae hyn yn rhoi cyfle i ni ystyried nifer o faterion strategol allweddol a gaiff eu trafod gan sefydliadau’r UE yn ystod 2010-2011, gan gynnwys y ddadl am ddyfodol y Polisi Cydlyniant, y Polisi Amaethyddol Cyffredin, Agenda Lisbon a chyllideb gyffredinol yr UE. Yn ogystal â’r materion uchod, byddwn hefyd yn ystyried ymateb yr UE i’r argyfwng economaidd ac ariannol, effaith posibl y cynigion ar gyfer y Gyfarwyddeb Hawliau Trawsffiniol i Gleifion, yr hyn y mae’r pecyn Newid yn yr Hinsawdd yn ei olygu i Gymru, a’r broses o fonitro a rhoi deddfwriaeth a rhaglenni Ewropeaidd ar waith yng Nghymru.

Byddwn hefyd yn parhau i edrych yn ehangach ar Gysylltiadau Ewropeaidd a Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys ei gysylltiad â chyrff fel y Corff Rhyngseneddol Prydeinig-Gwyddelig, Pwyllgor y Rhanbarthau, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a Chynhadledd (Llywyddion) Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE).

I gloi’r rhifyn newydd hwn, rydym wedi cynnwys crynodeb o waith y Pwyllgorau mewn perthynas ag Ewrop yn ystod 2008, ac wedi nodi ymweliadau VIP â’r Senedd, gan gynnwys ymweliad gan Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Margot Wallstrom, ym mis Ionawr.

Hoffwn hefyd dynnu sylw at yr achlysur hanesyddol ym Mrwsel ym mis Tachwedd pan ddefnyddiwyd y Gymraeg yn swyddogol am y tro cyntaf yn sesiwn lawn Pwyllgor y Rhanbarthau gan Nerys Evans, un o ddau gynrychiolydd y Cynulliad ar y pwyllgor.

**Sandy Mewies**
**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

# Busnes arfaethedig yn ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

## Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

### 20 Ionawr

- **Y Prif Weinidog, Rhodri Morgan:** cyflwyno blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2009 ac ymateb i'r Cynllun Ewropeaidd i Adfer yr Economi.

- **Cadeirydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan, Jeff Cuthbert:** y wybodaeth ddiweddaraf am roi rhaglenni'r cronfeydd strwythurol newydd ar waith.

- **Busnes arall:** cytuno ar raglen waith y pwyllgor ar gyfer 2009, cytuno ar bapurau cwmpasu ar gyfer Ymchwiliadau i Bolisi Cydlyniant y Dyfodol a'r Gyfarwyddeb Hawliau Trawsffiniol i Gleifion.

### 3 Chwefror

- **Llysgennad Gweriniaeth Tsiec, Mr Jan Winkler:** cyflwyno blaenoriaethau Llywyddiaeth y Weriniaeth Tsiec ar yr Undeb Ewropeaidd.

- **Ymchwiliad i Hawliau Trawsffiniol i Gleifion:** tystiolaeth gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Cyfarwyddiaeth Gyffredinol SANCO, y Comisiwn Ewropeaidd.

- **Ymchwiliad i Sybsidiaredd:** trafod a mabwysiadu Adroddiad ac Argymhellion yr Ymchwiliad a gynhaliwyd yn ystod 2008.

### 10-12 Chwefror

- **Ymweliad y Pwyllgor â Brwsel:** cyfarfodydd ag Aelodau Cymru o Senedd Ewrop, Kim Darroch, Cynrychiolydd Parhaol y DU yn yr Undeb Ewropeaidd, Dirk Ahner, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Polisi Rhanbarthol, a swyddogion o Gyfarwyddiaethau Cyffredinol eraill y Comisiwn.

## 24 Chwefror

- *Busnes i'w gadarnhau:* mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar wefan y Pwyllgor http:// www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees.htm.

## Eitemau'n gysylltiedig ag agenda'r UE:

### Y Pwyllgor Menter a Dysgu

- **Ymchwiliad i Economi Cymru:** i ddechrau ar 5 Chwefror. Mae'n bosibl y bydd yn cynnwys adolygiad o effaith rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop.

### Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

- **Ymchwiliad i lifogydd yng Nghymru:** bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar 22 Ionawr a yw am fwrw ymlaen â'r ymchwiliad hwn, ar ôl i Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai lansio ymgynghoriad cyhoeddus i lifogydd yng Nghymru yn ddiweddar.

### Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

- **Ymchwiliad i Gynhyrchu a Hyrwyddo Bwyd o Gymru:** dechreuodd ar 15 Ionawr wrth i'r Athro Terry Marsden o Brifysgol Caerdydd amlinellu cefndir yr ymchwiliad. Yna cynhaliwyd trafodaeth o amgylch y bwrdd gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant bwyd-amaeth yng Nghymru.

# Edrych yn ôl: pynciau'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd y bu Pwyllgorau'r Cynulliad yn eu trafod yn ystod 2008

### Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

- **Ymchwiliad i rôl Banc Buddsoddi Ewrop:** clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Fanc Buddsoddi Ewrop, y Comisiwn Ewropeaidd, y Dirprwy Brif Weinidog, Cyllid Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Trafodwyd yr adroddiad drafft ym mis Hydref.

- **Archwiliad Iechyd y Polisi Amaethyddol Cyffredin:** clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Klaus-Dieter Borchardt, Dirprwy Bennaeth Cabinet y Comisiynydd Ewropeaidd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Gweinidog Amaethyddiaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru. Mabwysiadwyd yr adroddiad ym mis Hydref.

- **Ymchwiliad i Sybsidiaredd:** clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Gerhard Stahl, Ysgrifennydd Cyffredinol Pwyllgor y Rhanbarthau, Andrew Duff, Aelod Senedd Ewrop Dwyrain Lloegr ac Ysgol Astudiaethau Ewropeaidd ac Ysgol y Gyfraith Prifysgol Caerdydd. Disgwylir y bydd adroddiad y Pwyllgor yn cael ei drafod ar 3 Chwefror.

## Y Pwyllgor Menter a Dysgu

- **Ymchwiliad i gyfraniad economaidd Addysg Uwch yng Nghymru:** clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan gynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru a chan Gydgysylltydd Proses Bologna yng Nghymru, Prifysgol Abertawe, fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Disgwylir y caiff yr adroddiad dros dro ei gyhoeddi ym mis Ionawr.

## Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

- **Ymchwiliad i faterion sy'n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru:** cyhoeddwyd adroddiad ym mis Tachwedd 2008, yn dilyn sesiynau tystiolaeth gyda Llysgenhadaeth Gwlad Pwyl, Cadeirydd y Gymuned Lithwanaidd yng Nghymru, Is-gennad Anrhydeddus Cynrychiolaeth y Weriniaeth Slofacaidd yng Nghymru ac Is-gennad Anrhydeddus Lithwania yng Nghymru.

## Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

- **Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon:** gan gynnwys ymweliadau gan y Pwyllgor i'r Almaen ac Awstria i edrych ar enghreifftiau o arfer da ym maes cynllunio cynaliadwy, microgynhyrchu ynni a systemau gwresogi biomas rhanbarthol.

- **Deiseb yn galw am wahardd bagiau plastig:** gan gynnwys ymweliad y Pwyllgor ag Iwerddon i gasglu gwybodaeth am effaith yr ardoll a osodwyd ar fagiau siopa plastig yn Iwerddon yn 2002.

### Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

- **Ymchwiliad i Echel 2 o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru:** cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i ddyfodol mesurau amaeth-amgylcheddol o dan y Cynllun Datblygu Gwledig, sy'n cael ei ariannu'n rhannol ag arian Ewropeaidd.

### Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad

- Cafodd y Panel dystiolaeth ysgrifenedig gan Senedd Gwlad y Basg am eu cynllun cyflogau a dyfarndaliadau.

# Ymweliadau â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a drefnwyd ar gyfer VIPs rhyngwladol

### Chwefror 2009

**Bydd Llysgennad y Weriniaeth Tsiec, Mr Jan Winkler,** yn dod i gyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar 3 Chwefror.

# Ymweliadau VIPs rhyngwladol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod 2008

### Ionawr 2008

- **Bu Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Margot Wallstrom,** yn annerch y Cynulliad pan ymwelodd â Chymru am dridiau.

- **Daeth Reinhard Wiemer, Cwnsler Gwleidyddol Llysgenhadaeth Gweriniaeth Ffederal yr Almaen,** i'r Cynulliad i drafod datganoli yng Nghymru â'r Aelodau.

### Chwefror 2008

- **Rhoddodd Ei Ardderchogrwydd Mr Iztok Mirošič, Llysgennad Gweriniaeth Slofenia,** dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar Flaenoriaethau Llywyddiaeth Slofenia a chymerodd ran mewn cyfarfod a gynhaliwyd dros ginio ag Aelodau'r Cynulliad.

### Mehefin 2008

- **Croesawyd Mr Armen Amirkhanyan, fel rhan o Raglen Cymrodoriaeth John Smith**, ymgeisydd seneddol yn Georgia ac aelod o Fwrdd Fforwm Dinasyddion Javakheti, sefydliad sy'n helpu lleiafrifoedd ethnig Georgia i integreiddio.

### Gorffennaf 2008

- **Cyfarfu Aelodau Pwyllgor Sefydlog Senedd Baden-Württemberg** ag aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a'r Pwyllgor Menter a Dysgu.

### Hydref 2008

- **Bu Arlywydd Gweriniaeth Estonia, Mr Toomas Hendrik Ilves,** yn annerch Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod ei ymweliad i ddathlu'r rhaglen gyfnewid ddiwylliannol rhwng Cymru ac Estonia.

### Tachwedd 2008

- **Cyfarfu Arlywydd Gwlad y Basg, Mme Izaskun Bilbao Barandica**, ag Aelodau'r Cynulliad pan ymwelodd â Chymru.

# Lincs

Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Hysbysiad Busnes y Cynulliad
Tudalennau'r Pwyllgorau
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

# Am ragor o wybodaeth

Cysylltwch â:
Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (Gregg.Jones@wales.gsi.gov.uk)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn 0032 2 226 66 92

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.